| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Mawrth 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Ymagwedd Gorfforaethol tuag at reoli "gwylanod" ar draws y Sir** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Ar y cyfan, derbynnir bod 'gwylanod' yn golygu niwsans, nid yn unig ar hyd yr arfordir, ond hefyd ein prif drefi. Mae cyfyngiadau ar ba gamau sydd ar gael i'r Cyngor i reoli poblogaeth "gwylanod". Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) y Cyngor wedi ystyried pa gamau priodol, fforddiadwy a chymesur y gellid eu cymryd. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr ystyriaethau a chasgliadau hynny.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am farn yr Aelodau ar gasgliadau'r UDA mewn ymgais i gyflwyno rhywfaint o reolaeth gyfyngedig ar boblogaeth "gwylanod" a'u hymddygiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir:

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (**Atodiad 1**) fel rhan o'i ystyriaethau; a

3.2 Bod yr Aelodau'n cefnogi'r camau gweithredu corfforaethol y cytunwyd arnynt yn yr UDA sydd wedi'u cynnwys yn y Tabl yn **Atodiad 2**.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Does dim ffasiwn aderyn â "gwylan". Dyma enw cyfunol am wahanol fridiau o '"wylanod", megis Gwylan y Penwaig (yr amlycaf yn Sir Ddinbych), Gwylan Gefnddu Fwyaf a'r Wylan Gefnddu Leiaf ac ati. Mae'r rhain yn adar hynod ddeallus ac addasadwy, llawer ohonynt wedi dod yn "drefol", gan fyw mewn trefi a dinasoedd ac wedi rhoi'r gorau i nythu, bridio, hela neu fwydo ar y môr. Maent yn adar mawr, ac i lawer maent yn codi ofn.

4.2 Mae pob aderyn gwyllt, eu hwyau a'u nythod yn cael eu "gwarchod" dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae llawer o "wylanod" hefyd yn cael eu gwarchod ymhellach gan fod eu poblogaethau yn lleihau yn y gwyllt.

4.3 Mae’r “problemau" canlynol yn gysylltiedig â “gwylanod”;

**Iechyd a Diogelwch:** Mae baw gwylanod yn cynnwys micro-organebau a all drosglwyddo clefydau.

**Diogelwch y cyhoedd;** Gall gwylanod fod yn ymosodol yn ystod y tymor nythu.

**Sŵn;** Mae gwylanod yn creu niwsans sŵn, yn enwedig ben bore

**Difrod:** Gall gwylanod sy’n nythu achosi difrod i adeiladau

**Sbwriel;** Gall baeddu achosi problemau "blerwch" parth y cyhoedd, ac mae gwylanod yn taenu sbwriel o ganlyniad i fwydo, rhwygo bagiau bin yn agored ac ati.

**Aflonyddu ar Bobl;** Mae gwylanod yn credu bod unrhyw fwyd y maent yn ei weld yn fwyd iddyn nhw. Maent wedi dysgu ein harferion. Mae gwylanod yn "swnian" ar bobl sy'n bwyta tu allan, ac yn wir fe allant gymryd bwyd o law rhywun.

4.4 Mae’n rhaid cydnabod hefyd bod llawer o bobl yn hoffi "gwylanod", maent yn rhan draddodiadol o'n hamgylchedd glan môr, ac yn adar trawiadol yn eu rhinwedd eu hunain.

4.5 Mae'r Cyngor yn cael cwynion am y boblogaeth "wylanod", yn uniongyrchol oddi wrth drigolion lleol ac aelodau etholedig, Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad ac ati. Yn draddodiadol mae’r cwynion hyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gan yn y gorffennol roedd gennym wasanaeth "rheoli plâu". O ganlyniad i arbedion blaenorol penderfynodd y Cyngor i "roi stop" ar ein gwasanaeth rheoli plâu a gwnaed arbediad o tua £80k. Bellach nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw adnoddau, gweithlu, cyllideb nac unrhyw beth arall i ymateb i gwynion am "wylanod".

4.6 Y realiti yw fel Gwasanaeth ychydig iawn a wnaethom o'r blaen, ac ychydig o effaith os nad dim oedd yr hyn a wnaethom yn ei gael. Beth rydym yn ei wneud yn awr yw cyfeirio unrhyw achwynydd yn uniongyrchol i wefan y Cyngor, sydd yn ei dro yn darparu dolen gyswllt i wefan gan yr RSPB am "wylanod".

4.7 Beth bynnag, mae’r problemau yn gofyn am ddull y tu hwnt i gwmpas yr adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, pwynt a wnaed yn glir yn **Atodiad 2**.

4.8 Nid oedd y broblem “gwylanod” yn unigryw i Sir Ddinbych. Mae swyddogion wedi cynnal ymchwil ar yr hyn y mae eraill yn ei wneud. Nid oes atebion syml. I gynorthwyo aelodau i ddeall y broblem ymhellach a'r diffyg atebion syml iddi, atodir yr atodiadau canlynol i'r adroddiad;

4.9 **Atodiad 3;** Adroddiad manwl a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd Cyngor Caerdydd ym mis Mai 2013.

4.10 **Atodiad 4**; Llythyr dyddiedig Mehefin 2016 oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Dr James Davies AS

4.11 **Atodiad 5;** Llythyr dyddiedig Medi 2016 oddi wrth yr RSPB i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

4.12 **Atodiad 6;** Taflen Gyngor ar Adar a ddarperir gan Animal Aid

4.13 **Atodiad 7;** Adroddiad "Alternatives to Culling; Gulls" gan Animal Aid

4.14 Pan fydd yr Aelodau'n darllen y deunydd ynghlwm, bydd yn amlwg nad oes unrhyw atebion hawdd, yn wir, efallai na fydd unrhyw gamau a gymerir gan Sir Ddinbych yn cael unrhyw effaith o ystyried nad yw "gwylanod" yn cydnabod ffiniau Siroedd a bod y broblem yn un gyffredin ledled y DU.

4.15 Yr hyn mae'r llenyddiaeth sydd ynghlwm yn ei wneud yw rhoi nifer o awgrymiadau i'w gweithredu, er mwyn **ceisio** lliniaru **rhai** o'r problemau.

4.16 Nid oes gan y Cyngor yr adnoddau i wario symiau mawr o arian a allai ar y gorau fynd i'r afael â rhai problemau mewn rhai ardaloedd, ond yn ôl pob tebyg ychydig iawn o effaith fyddan nhw'n eu cael a dim ond symud y problemau i ardal arall.

4.17 Eto, nid yw gwneud dim yn ymddangos i fod yn ymateb rhesymol chwaith. Felly mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r ymagwedd arfaethedig, er yn gyfyngedig, fel y cafodd ei hystyried gan yr UDA

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd ceisio cyfyngu rhai o'r effeithiau negyddol a achosir gan "wylanod" yn helpu cefnogi Blaenoriaethau Corfforaethol Strydoedd Taclus Glân a Chefnogi Pobl Ddiamddiffyn.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r tabl o gamau gweithredu arfaethedig fel y'i cynhwysir yn **Atodiad 2** yn effeithio ar ystod eang o Wasanaethau ar draws y Cyngor. Bydd angen ariannu'r camau hynny o fewn cyllidebau presennol y Gwasanaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Les wedi ei atodi fel **Atodiad 1**. Mae'r casgliadau cyffredinol ar y camau gweithredu arfaethedig yn **Atodiad 2** yn gadarnhaol. Dyma'r Asesiad cyntaf a gwblhawyd ar y pwnc hwn. Efallai y bydd angen asesiadau pellach fel bydd pob Gwasanaeth yn cymryd cyfrifoldeb am y camau gweithredu unigol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r tabl o gamau gweithredu arfaethedig yn **Atodiad 2** wedi cael ei ystyried a'i gytuno yn yr UDA.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni ofynnwyd am ddatganiad gan fod y camau gweithredu arfaethedig yn **Atodiad 2** wedi cael eu cytuno gan yr UDA. Derbyniwyd na fyddai unrhyw arian "newydd" ar gael i weithredu'r camau hyn h.y. byddai angen iddynt gael eu hariannu gan y Gwasanaethau gan ddefnyddio cyllidebau presennol fel rhan o "weithgareddau busnes fel arfer."

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risg i enw da'r Cyngor ymysg dinasyddion y Sir os na chymerir camau i o leiaf geisio mynd i'r afael â rhai o'r effeithiau negyddol a grëir gan y boblogaeth "wylanod", a dyna pam y camau gweithredu sydd yn **Atodiad 2.**

10.2 Ni all y Cyngor fynd i'r afael na datrys yr holl faterion negyddol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth "gwylanod" y Sir. Mae risg drwy gynnig rhai o'r camau gweithredu y bydd mwy o ddisgwyliad ymysg rhan o'n cymuned y bydd y Cyngor yn ymrwymo adnoddau ychwanegol, nad yw'n cael ei gynnig. Mae angen cael strategaeth gyfathrebu glir ynghylch ymagwedd gyffredinol y Cyngor.

10.3 Mae perygl y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael ychydig iawn o effaith, ond mae'r camau gweithredu yn rhannol ynghylch y Cyngor yn ceisio gwneud yr hyn a all, ac yn rhannol ynghylch addysgu'r cyhoedd yn gyffredinol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio barn Aelodau, ac fel y cyfryw nid oes angen "penderfyniad". Mae gan y swyddogaeth Archwilio bwerau o ran datblygu ac adolygu polisïau, fel sydd yn cael eu hamlinellu yn Erthygl 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

11.2 Mae nifer o gamau gweithredu posibl yn **Atodiad 2**, a chyfrifoldeb pob Pennaeth Gwasanaeth fydd sicrhau eu bod yn gweithredu ar y pwerau statudol priodol / perthnasol lle bo angen.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Ffôn: 01824 706925